

YSGOL SEFYDLEDIG CAERGEILIOG

POLISI CWYNION

1 Rhagymadrodd

1.1 Ymdrechwn i ddarparu addysg o safon uchel i'n holl ddisgyblion. Mae'r Pennaeth a'r staff yn gweithio'n galed iawn i adeiladu perthynas gadarnhaol gyda'r holl rieni. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Ysgol fod â gweithdrefnau yn eu lle rhag ofn y bydd cwynion gan rieni neu warcheidwaid. Mae'r Polisi a ganlyn yn nodi'r gweithdrefnau y mae'r Ysgol yn eu dilyn mewn achosion o'r fath.

1.2 Os bydd unrhyw rieni'n anhapus â'r addysg y mae eu plentyn yn ei chael, neu os oes ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â'r Ysgol, rydym yn eu hannog i siarad ag athro dosbarth y plentyn ar unwaith.

1.3 Rydym yn delio â phob cwyn yn unol â gweithdrefnau a osodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os na all yr Ysgol ei hun ddatrys cwyn, gall y rhai dan sylw gyfeirio'r mater at Fwrdd y Llywodraethwyr.

1.4 Mae gan bob rhiant yr hawl, fel y dewis olaf, i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg os ydynt yn dal i deimlo nad yw eu cwyn wedi cael sylw priodol.

2 Nodau

2.1 Mae ein Hysgol yn anelu at fod yn deg, yn agored ac yn onest wrth ymdrin ag unrhyw gŵyn. Rydym yn rhoi ystyriaeth ofalus i bob cwyn, ac yn delio â nhw cyn gynted â phosibl. Ein nod yw datrys unrhyw gŵyn trwy ddeialog a chyd-ddealltwriaeth. Ym mhob achos rydyn ni'n rhoi buddiannau'r plentyn uwchlaw popeth arall. Rydym yn rhoi digon o gyfle i unrhyw gŵyn gael ei thrafod yn llawn, ac yna ei datrys.

3 Y broses gwyno

3.1 Os yw rhiant yn bryderus am unrhyw beth yn ymwneud â'r addysg yr ydym yn ei darparu yn ein Hysgol, dylent, yn y lle cyntaf, drafod y mater gydag athro dosbarth eu plentyn. Yn ein profiad ni, gellir datrys y rhan fwyaf o faterion sy'n peri pryder yn gadarnhaol yn y modd hwn. Mae'r holl athrawon yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod pob disgybl yn hapus yn yr Ysgol, ac yn gwneud cynnydd da; maent yn naturiol eisiau gwybod a oes problem, fel y gallant weithredu cyn iddo effeithio'n ddifrifol ar gynnydd y disgybl.

3.2 Pan fo rhieni'n teimlo nad yw sefyllfa wedi'i datrys drwy gysylltu â'r athro dosbarth, neu fod eu pryder o natur ddigon difrifol, dylent wneud apwyntiad i'w drafod gyda'r Pennaeth. Mae'r Pennaeth yn ystyried unrhyw gŵyn o'r fath yn ddifrifol iawn ac yn ymchwilio i bob achos yn drylwyr. Fel arfer caiff y rhan fwyaf o gwynion eu datrys yn ystod y cam hwn.

3.3 Os bydd gan unrhyw rieni gŵyn am y Pennaeth, dylent yn gyntaf gysylltu ag un o aelodau'r Corff Llywodraethol, y mae'n ofynnol iddynt ymchwilio iddi. Bydd y Llywodraethwr dan sylw yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddatrys y mater trwy ddeialog gyda'r Ysgol, ond os yw rhieni'n anhapus gyda'r canlyniad, gallant wneud cwyn ffurfiol, fel yr amlinellir isod.

3.4 Dim ond os bydd cwyn anffurfiol yn methu â chael ei datrys y dylid gwneud cwyn ffurfiol i'r Corff Llywodraethol. Rhaid gwneud y gŵyn hon yn ysgrifenedig, gan nodi natur y gŵyn, a sut y mae'r Ysgol wedi ymdrin â hi hyd yn hyn. Dylai'r rhiant anfon y gŵyn ysgrifenedig hon at Gadeirydd y Llywodraethwyr.

3.5 Rhaid i'r Corff Llywodraethol ystyried pob cwyn ysgrifenedig o fewn tair wythnos i'w derbyn. Bydd yn trefnu cyfarfod i drafod y gŵyn ac yn gwahodd y sawl sy'n cwyno i fynychu'r cyfarfod, fel y gall ef/hi egluro'r gŵyn yn fanylach. Mae'r Ysgol yn rhoi o leiaf dri diwrnod o rybudd i'r achwynydd o'r cyfarfod.

3.6 Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, bydd y Llywodraethwyr yn ystyried eu penderfyniad ac yn hysbysu'r rhiant yn ysgrifenedig. Mae'r Llywodraethwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddatrys y gŵyn i foddhau y rhieni.

3.7 Os bydd unrhyw riant yn dal yn anfodlon bod y gŵyn wedi cael ei thrin yn briodol, yna mae ganddo/ganddi hawl i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

4 Monitro ac adolygu

4.1 Mae'r Llywodraethwyr yn monitro'r Weithdrefn Gwyno, er mwyn sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn briodol. Mae'r Pennaeth yn cofnodi'r holl gwynion a dderbynnir gan yr Ysgol, ac yn cofnodi sut y cawsant eu datrys. Mae'r llywodraethwyr yn archwilio'r log hwn yn flynyddol.

4.2 Mae llywodraethwyr yn cymryd i ystyriaeth unrhyw benderfyniadau lleol neu genedlaethol sy'n effeithio ar y broses gwyno, ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r Polisi hwn. Sicrheir bod y Polisi hwn ar gael i bob rhiant, er mwyn iddynt gael gwybod yn iawn am y broses gwyno.

Paratowyd y Polisi hwn: Gorffennaf 2005
Fe'i diweddarwyd: Gorffennaf 2010
Fe'i hawdurdodwyd gan y Corff Llywodraethol: Gorffennaf 2010
Bydd yn cael ei adolygu: Yn flynyddol

Manylion adolygu:

Ionawr 2011
Ionawr 2012
Ionawr 2013
Ionawr 2014
Mehfin 2015
Gorffennaf 2016
Gorffennaf 2017
Gorffennaf 2018
Gorffennaf 2019
Gorffennaf 2020
Gorffennaf 2021